Chwarae Teg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# TUAG AT GYDRADDOLDEB RHYWEDD YNG NGHYMRU:

## Ymateb i Economi sy'n Trawsnewid

DR HADE TURKMEN

MEHEFIN 2022

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cyflwyniad | **1** |
| **2.** | Safle Menywod yn Economi Cymru | **3** |
| **3.** | Digidoleiddio ac Awtomeiddio’r Economi | **5** |
| **4.** | Trosglwyddo i economi werdd | **10** |
| **5.** | Dadansoddiad o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar sail Cydraddoldeb Rhywedd Croestoriadol | **17** |
| **6.** | Casgliad ac Argymhellion | **20** |

# 1. Cyflwyniad

Mae amgylchedd ein heconomi wedi profi trawsnewidiad eithriadol o gyflym. Rydym bellach yn byw drwy'r Bedwerydd Chwyldro Diwydiannol. Mae'r chwyldro hwn, a gaiff ei arwain gan dechnoleg a'r syniad o *awtomatiaeth a digidoleiddio*, yn newid ein bywydau; y modd rydym yn gweithio a'n perthnasau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol.[1] Nid dyma'r unig rym sy'n newydd ein bywydau. Rydym hefyd yn wynebu'r argyfwng hinsawdd, sy'n peri risg sylweddol i genedlaethau'r dyfodol, rydym yn dal i ddelio ag effeithiau pandemig Covid-19, ac rydym ar ganol un o argyfyngau costau byw gwaethaf ers degawdau. Mae'r cyd-destun hwn yn cynnig heriau a chyfleoedd unigryw i ailffurfio economi Cymru.

Oherwydd bod yn ***rhaid*** i ni ei drawsnewid. Mae anghydraddoldebau strwythurol parhaus y byd sydd ohoni heddiw yn golygu bod rhai grwpiau (grwpiau incwm isel yn bennaf sydd â nodweddion gwarchodedig) yn fwy tebygol o ddioddef o'r newidiadau radical hyn yn ein heconomi nag eraill. Os na roddir ystyriaeth ofalus i'r anghydraddoldebau hyn wrth i ni baratoi ar gyfer y dyfodol, ac os nad ydynt yn mynd i'r afael â hwy, byddwn yn cyfrannu at yr anghydraddoldeb hwnnw. Ac eto, ni roddir llawer o bwyslais, os o gwbl, ar gydraddoldeb wrth lunio polisïau yn y maes hwn. Dim ond drwy roi cydraddoldeb wrth wraidd polisi ac arfer y gallwn sicrhau bod economi'r dyfodol yn wyrdd, yn ofalgar ac yn deg. Mae'n ddigon hawdd dweud hyn, ond nid yw hynny'n ddigon da; mae angen i ni lunio camau gweithredu gwahanol i gyflawni canlyniadau gwahanol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried dau o'r prif dueddiadau y mae'n rhaid i ni ymateb iddynt - digidoleiddio a'r newid i economi werdd - gan roi ystyriaeth i anghydraddoldeb rhywedd wrth ymdrin â'r materion a'r ymateb i bolisi cyhoeddus yng Nghymru hyd heddiw.  Mae'r dadansoddiad hwn yn rhan o'r cwestiwn ehangach o ba fath o economi yr ydym am ei gweld yn y dyfodol?

Rydym yn glir bod yn rhaid i iddi fod yn economi deg, werdd, ofalgar a theg, er mwyn i ni ddiogelu dyfodol y blaned, sicrhau gwaith gweddus a theg i bawb a chreu'r amodau i bobl fyw bywydau diogel, llawn boddhad a hapusrwydd. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi argymhellion ar sut y gall ein hymateb i ddigidoleiddio ac i'r newid i economi werdd ein harwain tuag at y dyfodol hwn.

1 Digwyddodd y Chwyldro Diwydiannol Cyntaf o ddiwedd 18fed ganrif hyd at y 19fed ganrif. Y gwaith o gyflwyno pŵer a pheiriannau stêm i'r broses gynhyrchu oedd wedi llunio'r chwyldro hwn. Digwyddodd yr ail chwyldro diwydiannol o ddiwedd y 19fed ganrif hyd at ganol yr 20fed ganrif. Y gwaith o fecaneiddio, datblygu llinellau cynhyrchu a masgynhyrchu oedd wedi llunio'r chwyldro hwn. Digwyddodd y trydydd chwyldro diwydiannol o ganol yr 20fed ganrif hyd at ddechrau'r 21ain ganrif. Twf y defnydd o gyfrifiaduron a globeleiddio nwyddau a marchnadoedd ar raddfa fawr oedd wedi llunio'r chwyldro hwn. Erbyn heddiw, gyda datblygiad technolegau digodol fel deallusrwydd artiffisial (AI), roboteg a'r rhyngrwyd, derbynnir bellach ein bod ni'n profi'r pedwerydd chwyldro diwydiannol. (Brown, P. (2019), **Cymru 4.0: Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar Gyfer Gwell Dyfodol Gwaith,** Llywodraeth Cymru. (Mynediad: Mai 2021))

# Ffocws a Methodoleg Ymchwil

Yn rhy aml, nid yw dadansoddiad prif ffrwd o dueddiadau economaidd yn rhoi digon o ystyriaeth i faterion cymdeithasol a chysylltiadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r math hwn o ddadansoddiad wedi'i wreiddio mewn meddylfryd economaidd sy'n canolbwyntio ar dwr a dangosyddion economaidd traddodiadol, megis Cynnyrch Domestig Gros (GDP) a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ac yn aml, mae'n blaenoriaethu diwydiannau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhoi'r safbwynt benywaidd yn ein dadansoddiad o brif dueddiadau economi Cymru a'u heffaith debygol ar y farchnad lafur a chyfranogiad economaidd menywod. Mae ein dadansoddiad hefyd yn herio dulliau economaidd traddodiadol er mwyn creu agenda arloesol i Gymru.  Rydym yn defnyddio'r blaenoriaethau a nodir mewn amrywiaeth o adroddiadau Chwarae Teg, gan gynnwys **Adfer Ffeministaidd, Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd, Maniffesto ar gyfer Cydraddoldeb Rhywedd yng Nghymru**

# Cwestiynau Ymchwil

Y prif gwestiynau y mae'r ymchwil yn ceisio mynd i'r afael â nhw:

- Pa effaith fydd awtomeiddio, digidoleiddio a'r newid i economi werdd yn ei chael ar fenywod?
- Pa rwystrau y mae menywod yn debygol o'u hwynebu yn y dyfodol wrth i'r economi gael ei hail-ffurfio gan y tueddiadau hyn?
- Pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhywedd yn y trawsnewidiad economaidd hwn?
- I ba raddau y mae cydraddoldeb rhywedd yn cael ei ystyried yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r tueddiadau hyn?

Rydym yn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn drwy wneud ymchwil pen-desg helaeth, gan ystyried y safbwynt rhyweddol wrth edrych ar lenyddiaeth bresennol ar faterion awtomeiddio, newid hinsawdd a'r amgylchedd gwyrdd. Rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae'r polisïau a'r rhaglenni presennol sy'n canolbwyntio ar ymateb i'r tueddiadau economaidd hyn, yn rhoi cydraddoldeb wrth wraidd eu gwaith.  I wneud hyn, rydym yn cynnwys ein *Fframwaith Dadansoddi Rhywedd* Croestoriadol[2] i nodi unrhyw fylchau ac i lunio'n argymhellion i Lywodraeth Cymru a chyfranogwyr eraill.

2  Ceir rhagor o wybodaeth ar y fframwaith yn y prif adroddiad.

# 2. Safle Menywod yn Economi Cymru

Er mwyn deall yn iawn effaith debygol awtomeiddio, digidoleiddio a'r newid i economi werdd, mae'n bwysig deall y darlun presennol o gydraddoldeb rhywedd yn economi Cymru.

Mae ein heconomi yn ddibynnol iawn ar ddiwydiannau gwasanaeth gan gynnwys sectorau sylfaenol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus. Ond y diwydiant sy'n dal i gyfrannu fwyaf at ein GVA yw diwydiant gweithgynhyrchu, sy'n cyfrif am 16.8% .[3]

Mae ein heconomi'n dal i gael ei dylanwadu'n fawr gan rywedd. P'un a yw'n gyfraddau is o ran gweithgarwch economaidd a chyflogaeth, cynifer o fenywod mewn sy'n gweithio mewn sectorau cyhoeddus megis gweinyddu, addysg ac iechyd a gofal (mae 52% o fenywod yn gweithio yn y sectorau hyn) neu tangynrychiolaeth menywod mewn sectorau STEM. Mae'r anghydraddoldeb hwn hyd yn oed yn fwy o'i ystyried mewn cyd-destun croestoriadol - menywod o leiafrifoedd ethnig sydd â'r gyfradd gyflogaeth isaf o 60.3%, o'i gymharu â 70% ar gyfer menywod gwyn a 76% ar gyfer dynion o leiafrifoedd ethnig[4].


Gwelwn wahanu sectoraidd a galwedigaethol sylweddol yn ôl rhywedd yng Nghymru. Dim ond 10.2% o fenywod sy'n gweithio ym maes gweithgynhyrchu, ynni a'r amgylchedd, TGCh a thrafnidiaeth. I'r gwrthwyneb, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio mewn meysydd gweinyddol, gofal, hamdden a gwasanaethu yn fenywod[5]. Mae'r gweithlu gwrywaidd yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyfartal ar draws sectorau. Bydd gan y gwahanu sectoraidd hwn oblygiadau i'r sawl yr effeithir arnynt fwyaf gan ddigidoleiddio a'r newid i economi werdd.

Dewisiadau addysg a wneir gan bobl ifanc sydd wrth wraidd y gwahanu hwn, ac mae'r newidiadau hynny'n cael eu dylanwadu'n fawr gan stereoteipiau rhywedd. Mewn addysg uwch, mae menywod yn llawer mwy tebygol o ddewis pynciau yn ymwneud â gwyddorau cymdeithasol, iechyd a gofal cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau. Mae cyfran y menywod sy'n astudio gwyddorau mathemategol (37%), peirianneg a thechnoleg (17%), a chyfrifiadura (17%) yn arbennig o isel. Ceir cynrychiolaeth uwch o fenywod mewn pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth, megis nyrsio a gofal iechyd (81%), seicoleg (80%), gwyddorau milfeddygol (93%), ac addysg ac addysgu (76%)[6].

Gwelir gwahaniaeth rhyweddol tebyg ar lefel TGAU a Safon Uwch, lle ceir ostyngiad sylweddol yn nifer y merched sy'n astudio rhai pynciau nad ydynt yn orfodol.


3 StatsWales (2019) **Gwerth Ychwanegol Crynswth yng Nghymru yn ôl diwydiant** (Mynediad: Rhagfyr 2021).
4 Annual Population Survey, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021, **Sector (SIC 2007) and Economic Activity statistics** drwy NOMIS. (Mynediad: Ionawr 2022).
5 Ibid.
6 StatsWales, **Cofrestriadau yng Nghymru yn ôl pwnc HECOS, lefel a dull astudio.** (Mynediad: Ionawr 2022).

## Cyfradd y myfyrwyr benywaidd sy'n astudio pynciau STEM yn ôl lefel yr addysg, 2019-20




Gwelir rhaniad yn ôl rhywedd yn nifer y rhai sy'n dewis gwneud prentisiaeth hefyd, sy'n agor llwybr hollbwysig i fynd i mewn i ddiwydiant.[7] Ni roddir unrhyw dargedau i ddarparwyr i helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hyn hyd yn hyn, ac mae'r cynnydd i leihau'r bylchau hynny'n araf iawn.

## Pob rhaglen prentisiaeth yn ôl sector a rhywedd, 2019-20




7 StatsWales, **Nifer y rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn ôl grŵp oedran, rhyw a'r math o raglen.** (Mynediad: Ionawr 2022)

# 3. Digidoleiddio ac Awtomeiddio'r Economi

Yn draddodiadol, mae awtomeiddio a digidoleiddio wedi golygu defnyddio peiriannau yn lle dynion i wneud tasgau arferol ac ailadroddus. Ond, mae ystyr digidoleiddio gwaith yn dechrau newid wrth i dechnolegau digidol newydd, cyfrifiaduro a'r defnydd o algorithmau ddod i'r amlwg[8].

Yn aml, gall trafodaethau ar ddigideiddio ganolbwyntio ar y perygl eu bod yn cymryd lle swyddi, a gallant hefyd roi darlun bod awtomeiddio yn rhywbeth sydd ymhell yn y dyfodol. Nid yw'r pryderon hyn yn rhai disylwedd, mae llawer o swyddi mewn perygl o gael eu dadleoli ac mae llawer o dasgau'n debygol o gael eu cymryd drosodd gan beiriannau a chyfrifiaduron diolch i awtomeiddio a digidoleiddio. Fodd bynnag, mae pobl dan yr argraff anghywir nad oes modd rheoli awtomeiddio a'i fod yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun, ac yn dynodi'n dyfodol. Mewn gwirionedd, nid yw awtomeiddio yn ffenomenon newydd nac yn fater o'r dyfodol; mae awtomeiddio wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd mewn gwahanol sectorau (fel amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu). Yr hyn sydd wedi newid, yw bod awtomeiddio wedi dechrau datblygu mewn ffyrdd newydd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r broses wedi cyflymu ac ehangu drwy ddigidoleiddio mwy o swyddi gweithiwr coler wen o ganlyniad i ddatblygu technolegau AI.[9]

Er bod y brif drafodaeth ynghylch awtomeiddio a digidoleiddio yn y gwaith yn aml yn canolbwyntio ar ddadleoli a cholli swyddi, mae galw cynyddol am ddull o awtomeiddio sy'n seiliedig ar dasgau. Yn benodol, dylid archwilio'r tasgau sy'n ffurfio gwahanol alwedigaethau a sut y gellid awtomeiddio'r rhaid, yn hytrach nag edrych ar y swydd yn ei chyfanrwydd. Mae'n debygol y bydd gwahanol agweddau ar lawer o swyddau yn cael eu hawtomeiddio, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd y swydd ei hun yn golygu y bydd y swydd ei hun yn cael ei cholli.

Mae defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar dasgu yn rhoi ffigurau mwy realistig am golli swyddi ac mae'n cyfuno'r tasgau gyda nodweddion gweithwyr unigol i ddeall yn well pwy sydd fwyaf tebygol o brofi awtomeiddio. Wrth ddadansoddi'r dull hwn, rhagwelir bod mwy o swyddi'n debygol o gael eu newid gan awtomeiddio ond ni fyddant yn cael eu hawtomeiddio'n llawn.[10] Er enghraifft, mae dadansoddiad OECD o awtomeiddio yn y DU sy'n defnyddio model sy'n seiliedig ar dasgau, yn amcangyfrif y bydd 25% o swyddi yn newid a dim ond 10% o swyddi a fydd yn cael eu hawtomeiddio'n llawn.[11]

Mae llawer o agweddau cadarnhaol a negyddol ar awtomeiddio ac ar y chwyldro technolegol - trafodaeth sydd y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn - ond, y cwestiwn pwysig i'w ofyn am y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol yw, pa mor gydradd a theg yw'r broses hon. Sut y bydd anghydraddoldebau strwythurol a gwahaniaethau rhywedd yn cael sylw o fewn awtomeiddio a digidoleiddio? Beth yw oblygiadau rhyweddol y newid hwn o ran i ba raddau y mae swyddi menywod mewn perygl o gael eu dadleoli? Sut y gall menywod gael eu cynnwys yn y broses yn fwy?

---

8 Ymhlith y technolegau allweddol sy'n berthnasol i arloesi digidol mae Deallusrwyd Artiffisial (AI), technoleg blockchain, data mawr a dadansoddi dyddiadau, cyfrifiadura cwmwl, Y Rhyngrwyd Pethau (IoT) ac efeilliaid digidol, gweithgynhyrchu haen-ar-haen a printio 3D, pethau awtonomaidd, realiti rhithwir a realiti estynedig. (Brown, P. (2019), op cit., p.18)
9 Brussevich M., Dabla-Norris E., and Khalid S. (2019), **Is Technology Widening the Gender Gap? Automation and the Future of Female Employment;** IMF Working Paper
10 Brussevich M. et al. (2019) op cit.; Brown, P. (2019) op cit.; Roberts C., Parkes H., Statham R. and Rankin L. (2019), **The Future is Ours: Women, Automation and Equality in the Digital Age,** IPPR The Centre for Economic Justice; ONS (2019) The probability of automation in England: 2011-2017.
11 Dyfynnwyd gan ONS (2019) **The probability of automation in England: 2011-2017.**

# 3.1 Menywod yn y gweithlu ac awtomeiddio

Mae awtomeiddio'n effeithio ar fenywod a dynion yn wahanol am eu bod yn tueddu i weithio mewn sectorau a galwedigaethau gwahanol ac yn aml mae eu tasgau yn wahanol hyd yn oed yn yr un swyddi. Mewn sawl achos, dengys tystiolaeth bod menywod mewn mwy o berygl o golli'u swydd oherwydd awtomeiddio.

Roedd dadansoddiad ONS ar gyfer Lloegr wedi dangos 70.2% yn fenywod yn y galwedigaethau sydd mewn perygl uchel o gael eu hawtomeiddio, roedd 50.3% yn fenywod yn y galwedigaethau sydd mewn rhywfaint o berygl o gael eu hawtomeiddio a 42.6% yn fenywod yn y galwedigaethau sydd mewn perygl isel o gael eu hawtomeiddio yn 2017.[12] Mae gweithwyr rhan amser, sy'n llawer mwy tebygol o fod yn fenywod, yn cyfrif am 70% o'r holl gyflogeion mewn swyddi sydd mewn perygl uchel o gael eu hawtomeiddio; dim ond 11% o'r swyddi sydd mewn perygl isel o gael eu hawtomeiddio sy'n swyddi rhan amser.[13] Mae'n amlwg bod swyddi a bywoliaeth menywod mewn mwy o berygl na dynion.

Dangosodd ymchwil IPPR bod 64% o'r gweithwyr sydd mewn perygl uchel o gael eu hawtomeiddio yn fenywod, a bod 36% yn ddynion.[14] Canfu'r dadansoddiad fod menywod ddwywaith yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau â photensial uchel o gael eu hawtomeiddio - 9% o fenywod sy'n gweithio o gymharu â 4% o ddynion. Mae menywod mewn galwedigaethau mewn perygl uchel o gael eu hawtomeiddio ychydig yn fwy tebygol o fod o gefndir lleiafrif ethnig, er bod y gwahaniaeth ethnigrwydd hwn yn fwy amlwg ymhlith dynion. Mae cyfradd uchel iawn o weithwyr mudol gwrywaidd a benywaidd yn gweithio mewn galwedigaethau mewn risg uchel o gael eu hawtomeiddio a chyflog isel. Mae mudwyr yn cyfrif am 21% o'r holl weithlu benywaidd yn y DU, ac maent yn cyfrif am 29.3% o fenywod mewn galwedigaethau perygl uchel.[15]

Mae tueddiadau colli ac ennill swyddi ymysg menywod a dynion hefyd wedi'u gwahanu'n fawr yn ôl rhywedd, sy'n adlewyrchu'r anghydbwysedd rhywedd presennol mewn sectorau a galwedigaethau. Gallai rolau cymorth sy'n canolbwyntio ar wasanaethau a rolau clerigol gyfrif am 52% o'r swyddi a gollwyd gan fenywod. Ar y llaw arall, disgwylir i 40% o'r colledion swyddi ymhlith dynion fod mewn galwedigaethau peirianyddol a gwaith crefft.[16]

Mae rhagdybiaethau yn awgrymu y gallai menywod a dynion, ar gyfartaledd, weld enillion swyddi tebyg o ganlyniad i ddigidoleiddio ac awtomeiddio. Fodd bynnag, ni fydd menywod yn elwa o'r swyddi hyfedr, sy'n talu'n dda a gaiff eu hamlygu gan arloesi technolegol. Amcangyfrifir bod 25% o'r enillion swyddi posibl i fenywod yn ganlyniad i dwf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, y gallai gweithgynhyrchu gyfrif am 25% o enillion swyddi posibl i ddynion.[17]

Dim ond 23% o fenywod sy'n weithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg a gweithwyr cyswllt yng Nghymru.[18] O fewn y grŵp galwedigaethol hwn, dim ond 23% o'r menywod sy'n Weithwyr Proffesiynol TGCh a dim ond 28% sy'n dechnegwyr TGCh. Mae tangynrychiolaeth menywod yn y sectorau hyn nid yn unig yn golygu eu bod o dan anfantais fawr yn y farchnad lafur sydd newydd ddod i'r amlwg, ond maent hefyd yn absennol o lunio proses a chynnydd awtomeiddio a digideiddio.

12 Ibid.
13 Ibid.
14 Roberts C., Parkes H., Statham R. and Rankin L. (2019), op cit.
15 Ibid. P. 12-13.
16 Ibid.
17 Ibid. (2019).
18 Annual Population Survey, Oct 2020-Sep 2021, Regional - Occupation By Sex By Employment Type via Nomis

# 3.2 Tuedd mewn Deallusrwydd Artiffisial

Mae gan bwy sy'n ymwneud â'r gwaith o lunio technoleg oblygiadau hollbwysig o ran pa mor dda y mae technoleg ddigidol yn ymateb i anghenion gwahanol bobl a sut y caiff ei chymhwyso mewn bywyd bob dydd. Dynion sydd mewn bron a bod pob un o'r swyddi allweddol mewn datblygu a dylunio arloesedd digidol, gyda menywod a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol.

Mae tuedd o ran algorithmau yn un enghraifft o'r problemau y gall technoleg ddigidol heb gynrychiolaeth eu hachosi, a all arwain at wahaniaethu. Yn 2015, sylweddolodd Amazon, prif bŵer awtomeiddio a digidoleiddio yn y gwaith, nad oedd y system Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir ganddynt ar gyfer recriwtio ar gyfer swyddi datblygu meddalwedd a swyddi technegol eraill yn sgorio menywod. Y rheswm dros hyn oedd oherwydd bod y system yn modelu patrymau mewn ceisiadau a gyflwynwyd i'r cwmni dros 10 mlynedd, a oedd yn cael eu cyflwyno gan ddynion yn bennaf.[19] Yn 2016, cyhuddwyd LinkedIn, sef prif blatfform rhwydweithio proffesiynol a datblygu gyrfa ar-lein, o wahaniaethu yn erbyn menywod am fod ei swyddogaeth chwilio yn cynnig enwau dynion wrth chwilio yn hytrach nag enwau menywod. Wrth chwilio am gyswllt benywaidd ar y wefan, byddai'r canlyniadau'n wag neu byddai'r wefan yn gofyn a oedd y chwiliwr yn bwriadu chwilio am enw dyn tebyg.[20]

Nododd ymchwil sy'n gweithio ar ragfarn mewn technoleg ddigidol dri phrif duedd:[21]

- tuedd o ran deall pwy yw'r defnyddiwr a sut y gallent ddefnyddio'r feddalwedd;
- tuedd o ran y data a ddefnyddir i alluogi'r feddalwedd; gallai hyn wedyn gyflwyno awgrymiadau anghywir neu ragfarnllyd i'r defnyddiwr
- tuedd o ran dyluniad y cynnyrch, gan ei wneud yn llai deniadol neu'n anymarferol i gategorïau penodol o ddefnyddwyr

Er ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd a gawn drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, mae'n rhaid i ni hefyd gymryd camau i fynd i'r afael â rhagfarn a chael gwared ar y perygl o wahaniaethu. Ni ellir defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn modd goddefol.[22] Mae angen i strwythurau cyfreithiol addasu'n gyflym i fyd sy'n mynd yn fwyfwy digidol er mwyn diogelu pobl ac er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu drwy dechnoleg ddigidol.

19 The Guardian, 11.10.2018, **Amazon ditched AI recruiting tool that favoured men for technical jobs.** (Mynediad: Chwefror 2022).
20 Eticas Foundation (2021), **Gender Bias On Linkedin's Search Engine.** (Mynediad: Chwefror 2022)
21 Vorvoreanu et al, 2019;2019; dyfynnwyd gan EGIE (2020) **Gender Equality Index 2020: Digitalisation and the future of work.** (Mynediad: Medi 2021).
22 The Guardian, 13.03.2017, **Artificial intelligence is ripe for abuse, tech researcher warns: 'a fascist's dream'** and The Guardian, 08.09.2018, **Joseph Stiglitz on artificial intelligence: 'We're going towards a more divided society'.** (Mynediad: Chwefror 2022).

# 3.3 Mynediad i'r byd digidol

Mewn byd sy'n mynd yn fwyfwy digidol, mae'r rhai nad ydynt, neu na allant, gymryd rhan mewn technolegau digidol yn debygol o gael eu hallgáu a'u gadael ar ôl. Ochr yn ochr â'r drafodaeth ynghylch pwy sy'n creu, yn arwain ac yn rheoli'r byd digidol, mae'n hanfodol i nodi pwy sy'n gallu defnyddio technolegau digidol a phwy sydd â mynediad at wybodaeth a gwasanaethau i sicrhau bod y broses o newid i economi ddigidol yn un teg a chyfiawn. Mae'n rhaid i hyn roi ystyriaeth i sgiliau digidol yn ogystal â thlodi digidol.

Mae ymchwil ONS i'r rhaniad digidol yn y DU yn dangos nad yw 5.3 miliwn (10% o'r boblogaeth oedolion) o bobl yn y DU yn defnyddio'r rhyngrwyd.[23] Mae ymchwil Mynegai Defnyddwyr Lloyds Bank UK yn 2018 yn amcangyfrif nad oedd gan 8% o bobl yn y DU (4.3 miliwn o bobl) sgiliau digidol sylfaenol yn 2018.[24] Mae'n destun pryder bod 61% o'r rheiny yn fenywod, 76% ohonynt yn 65+, 46% ohonynt ar incwm isel, ac 81% ohonynt heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref, yn yr ysgol nac yn y gwaith. Cymru sydd â'r gyfran uchaf ymhlith rhanbarthau eraill y DU o bobl â dim sgiliau sylfaenol sef 19% o'i gymharu â 7% yn yr Alban, 12% o Ogledd Ddwyrain Lloegr a 10% o Ogledd Orllewin Lloegr.[25]

Gan fod llawer o wasanaethau cyhoeddus, megis gofal iechyd, nawdd cymdeithasol ac addysg yn mynd ar-lein, yn ogystal â'r broses o ymgeisio am lawer o swyddi, gallai'r rhai nad ydynt yn gallu ymgysylltu'n ddigidol gael eu gadael yn fwy agored i dlodi a'u hallgáu. Felly, mae tlodi digidol ac anghydraddoldeb, a ddiffinnir fel *"yr anallu i ryngweithio'n llawn â'r byd ar-lein, ar delerau'r unigolyn o ran pryd a pham y mae angen iddo wneud hynny"*[26], yn bryder cynyddol yn ystod y pedwerydd chwyldro diwydiannol hwn.



23 ONS (2019), **Exploring the UK's digital divide.** (Mynediad: Ionawr 2022)
24 Lloyds Bank, (2018), **UK Consumer Digital Index 2018.** P.20 (Mynediad: Ionawr 2022)
25 Lloyds Bank, (2018), **UK Consumer Digital Index 2018.** P.20. Proportion of regional population with zero Basic Digital Skills: : Dwyrain Lloegr 8%, Dwyrain Canolbarth Lloegr 9%, Llundain 6%, Gogledd Ddwyrain 12%, Gogledd Orllewin 10%, De Ddwyrain 5%, De Orllewin 9%, Gorllewin Canolbarth Lloegr 9%, Swydd Efrog & Humberside 6%, Yr Alban 7%, Cymru 19%
26 **https://digitalpovertyalliance.org/**

# 3.4. Ymateb i Ddigideiddio: Casgliad

Mae awtomeiddio a digideiddio yn newid ein heconomi, ein marchnad lafur a'n bywydau o ddydd i ddydd yn sylweddol. Nid yw'r trawsnewid hwn yn niwtral o ran rhywedd Mae menywod yn wynebu risgiau gwahanol o golli swyddi a newidiadau mewn swyddi a achosir gan awtomeiddio ac maent ar goll o'r sectorau sy'n debygol o weld twf mewn rolau medrus sy'n talu'n dda o ganlyniad i ddigidoleiddio.

Mae menywod yn gweithio mewn swyddi sy'n fwy tueddol o gael eu hawtomeiddio ac sy'n wynebu risgiau mwy sylweddol ac amrywiol o golli swyddi a newidiadau swyddi o ganlyniad i awtomeiddio a digideiddio. Mae menywod hefyd o dan anfantais o ran manteisio ar gyfleoedd ailsgilio/uwchsgilio a fyddai'n eu cefnogi i addasu i'r newidiadau yn y gwaith. Nid ydynt yn rhan o'r sectorau sy'n debygol o weld twf mewn rolau medrus sy'n talu'n dda o ganlyniad i ddigideiddio.

Mae technoleg ddigidol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, yn dangos tuedd, yn rhannol oherwydd bod diffyg menywod mewn rolau datblygu a bod llai ohonynt yn gwneud penderfyniadau yn y sector digidol. Felly, os na fydd unrhyw ymyrraeth, mae ein dibyniaeth gynyddol ar ddeallusrwydd artiffisial yn dueddol o atgyfnerthu anghydraddoldeb. Mae'n amlwg bod angen cytuno ar safonau'r diwydiant o ran arloesi ddigidol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, er mwyn sicrhau bod materion yn ymwneud a chydraddoldeb, rhagfarn a chynhwysiant yn cael eu deall a'u datrys yn briodol. Bydd angen cytuno ar y rhain yn fyd-eang, ond dylent ymdrin â'r angen am ddata diduedd, profion cadarn gyda grwpiau amrywiol a gweithdrefnau trwyadl er mwyn ymateb i'r rhagfarnau a nodwyd.

Mae mynediad at dechnoleg ddigidol, o ran sgiliau digidol a thlodi, hefyd yn seiliedig ar rywedd, sy'n cynyddu'r risg o adael grwpiau bregus ar ôl wrth i fwy o'n bywydau symud ar-lein. Mae tlodi digidol/data yn bryder cynyddol sy'n rhoi grwpiau bregus mewn perygl o gael eu gadael ar ôl a dyfnhau'r anghydraddoldebau.

Fodd bynnag, nid oes rhaid i'r newidiadau sy'n digwydd oherwydd awtomeiddio a digidoleiddo anwybyddu materion rhywedd. Drwy ystyried natur ryweddol yn ein heconomi a'n cymdeithas, a thrwy ystyried yr effeithiau posibl yn llawn, gallwn sicrhau bod ein hymateb i'r tueddiadau economaidd mawr hyn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn cyfrannu at broses gyfiawn o newid.

Gweler ein hargymhellion i sicrhau bod digideiddio'n sicrhau canlyniadau teg digwydd oherwydd awtomeiddio a digidoleiddo anwybyddu materion rhywedd. Drwy ystyried natur ryweddol yn ein heconomi a'n cymdeithas, a thrwy ystyried yr effeithiau posibl yn llawn, gallwn sicrhau bod ein hymateb i'r tueddiadau economaidd mawr hyn yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn cyfrannu at broses gyfiawn o newid.

Gweler ein **hargymhellion** i sicrhau bod digideiddio'n sicrhau canlyniadau teg

# 4. Trosglwyddo i economi werdd

Mae newid hinsawdd yn argyfwng. Mae angen gweithredu'n fyd-eang ar unwaith i fynd i'r afael ag ef a chyflawni'r targedau angenrheidiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Yn ôl Emissions Gap Report y Cenhedloedd Unedig 2019[27], er mwyn atal cynhesu y tu hwnt i 1.5°C, mae angen i ni leihau 7.6% o allyriadau bob blwyddyn o'r flwyddyn hon i 2030. Yng Nghymru, mae newid hinsawdd wedi arwain at gynnydd mewn llifogydd, sychder ac amrywiadau yn y tymheredd, gydag effeithiau uniongyrchol ar bron pob agwedd ar fywyd, ac mae mwy i ddod.[28] Mae Climate Central yn rhagweld, os bydd y ffordd bresennol o fyw yn parhau, mewn llai na 100 mlynedd, bydd rhannau helaeth o Gaerdydd, Casnewydd, Abertawe, Prestatyn a Llandudno dan ddŵr.[29]

Er mwyn ymateb i'r argyfwng hwn, mae angen i ni weld cryn dipyn o drawsnewid economaidd a chymdeithasol. Fodd bynnag, mae llawer o strategaethau'r llywodraeth yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio'u heconomïau yn unig, gan anwybyddu'r angen am newidiadau ehangach yn y ffordd y mae ein heconomi'n gweithio a sut rydym yn byw o ddydd i ddydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng yn ein hinsawdd, mae angen gwneud mwy na datgarboneiddio'r sectorau mwyaf llygredig a chwilio am ateb technolegol.

Mae angen i ni drawsnewid ac ad-drefnu'r system economaidd bresennol yn sylweddol er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd yn effeithiol ac ymateb i ganlyniadau'r argyfwng hinsawdd.[30]

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bawb, ond mae graddfa'r effaith hwnnw ar fywydau a gwledydd gwahanol yn amrywio oherwydd yr anghydraddoldebau presennol. Nid yw newid yn yr hinsawdd, na pholisïau a ddatblygwyd i fynd i'r afael ag ef, yn cael eu profi yn yr un modd. Er mai'r gwledydd a'r poblogaethau tlotaf a mwyaf ymylol yw'r lleiaf cyfrifol am gynhyrchu nwyon tŷ gwydr, maent yn fwy tebygol o brofi effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd, yn fwy tebygol o ddioddef o ganlyniadau niweidiol newid yn yr hinsawdd, ac mae ganddynt fynediad llawer mwy cyfyngedig i'r adnoddau sydd eu hangen i ymateb, ymdopi ac adfer o effaith yr argyfwng hinsawdd.

Felly, mae'n rhaid rhoi materion yn ymwneud ag anghydraddoldebau wrth wraidd y gwaith o lunio strategaeth effeithiol er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac effaith hyn ar bobl, cymunedau a lleoedd. Fodd bynnag, dyw'r drafodaeth ar anghydraddoldeb ddim yn ganolog mewn llawer o bolisïau a strategaethau newid yn yr hinsawdd, os oes trafodaeth o gwbl.

27 UN Environment Programme (2019), **Emissions Gap Report 2019.** (Mynediad: Medi 2021).
28 Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) (2020) **Y llwybr i Gymru sero net: adroddiad cyngor 2020.** (Mynediad: Medi 2021).
29 Climate Central, **Coastal Risk Screening Tool,** (Access: September 2021).
30 Markkanen and Anger-Kraavi, 2021. . Dyfynnwyd gan MacBride-Stewart S. and Parken A. (2021) **Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol: Meysydd gweithredu mewn gwaith, hinsawdd a newid demograffig;** Future Generations Commissioner for Wales, Cardiff University and Public Health Wales.

# 4.1 Diffinio economi werdd

Yng Nghymru, mae 'adferiad gwyrdd' wrth wraidd y gwaith o lunio polisïau, sy'n gam allweddol tuag at sicrhau dyfodol gwyrddach. Fodd bynnag, fel y nodir, mae diffyg sylw at yr agweddau cymdeithasol ac ecolegol yn niffiniad dogfen y llywodraeth o economi werdd, yn bennaf oherwydd y ffocws ar ddatgarboneiddio sectorau sy'n achosi lefelau uchel o lygredd.

Mae'r adroddiad gan y New Economics Foundation (NEF) ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (CCDC) yn diffinio'r adferiad gwyrdd fel y gwaith o *"ddarparu bywoliaethau o ansawdd da wrth gefnogi datgarboneiddio cyflym a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru"*[31] . Mae'r diffiniad hwn yn cynnig dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o ystod y newid y mae angen i ni ei weld, ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau proses gyfiawn a theg o newid.



31 Chapman A. and Kiberd E. (2021) **Sgiliau drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ail)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru,** NEF (New Economics Foundation) a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. T.17

# 4.2 Effaith yr argyfwng hinsawdd ar fenywod

Mae effeithiau'r argyfwng hinsawdd a dirywiad amgylcheddol i'w gweld ledled y byd mewn modd anghyfartal, ac maent yn effeithio fwyaf ar fenywod, yn arbennig y rhai sy'n mewn cenhedloedd sy'n datblygu ar incwm isel.[32] Mae menywod yn fwy tebygol o farw mewn trychineb hinsawdd, o gael eu hadleoli gan newid hinsawdd neu o farw o ganlyniad i lygredd.[33]Mae hyn oherwydd croestoriad rhwng strwythurau socio-economaidd, anghydraddoldebau rhywedd, materion yn ymwneud â phŵer, normau socio-economaidd, a rolau rhywedd.[34]

Nid yw'r effeithiau hyn yn rai sy'n effeithio'n unig ar fenywod mewn rhannau eraill o'r byd. Effeithir yn wahanol ar fenywod yng Nghymru a'r DU hefyd wrth i'w profiadau gael eu llunio gan fynediad at asedau ac adnoddau, gwahaniaethau ar sail rhywedd o ran y modd maent yn defnyddio'u hamser, mynediad at adnoddau ariannol a gwahaniaethau cyflogaeth.

Mae arferion sy'n ecsbloetio wrth wraidd ein systemau economaidd, boed hynny'n ecsbloetio drwy fanteisio ar ein hadnoddau naturiol neu ar waith menywod a grwpiau radical, sydd wedi cynyddu anghydraddoldebau gan gyfrannu at newid hinsawdd.[35] Mae diffyg dylanwad dros benderfyniadau yn golygu bod nifer o bolisïau a rhaglenni newid hinsawdd yn methu ag ystyried anghenion a blaenoriaethau menywod a'r heriau sy'n eu hwynebu. Gall canolbwyntio ar ddatgarboneiddio yn unig arwain at drafodaeth ar newid hinsawdd sy'n dechnegol ac yn gadael y rheiny nad ydynt yn rhan o'r diwydiannau ar ôl. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae menywod yn chwarae rhan ganolog mewn rheoli adnoddau naturiol o ran eu gweithgarwch cynhyrchiol ac atgenhediol yn yr aelwyd ac yn y gymuned.[36] Eto, caiff hyn ei lunio gan anghydraddoldeb yn ôl rhywedd presennol gan arwain at 'fwlch rhyweddol eco' lle mae'r gwaith o ofalu am yr amgylchedd wedi'i rannu yn ôl rhywedd ac mae'r stereoteipiau rhywedd i'w gweld wrth edrych ar bwy sy'n gyfrifol am wneud newidiadau yn y cartref.

Mae'n fwy cyffredin i fenywod fod yn gyfrifol am ofal a llafur di-dâl yn eu bywyd personol. Nid yw'r syndod eu bod hefyd yn cymryd cyfrifoldeb dros gostau'r argyfwng ecolegol ac yn cymryd cyfrifoldeb dros y gwaith o wneud yn iawn amdano.[37] Yn amlach na pheidio, caiff 'cynhyrchion gwyrdd, ecogyfeillgar'[38] eu marchnata i dargedu menywod ac mae menywod yn treulio mwy o amser ac yn gwario mwy o arian i gael gafael ar y cynhyrchion hyn.[39] Drwy geisio dod o hyd i gynhyrchion ecogyfeillgar a thrwy ddefnyddio'r cynhyrchion hyn, mae menywod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wneud newidiadau o ddydd i ddydd i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd. Gelwir hyn yn "benyweiddio gwaith amgylcheddol"[40], ac mae'n golygu bod menywod ar eu colled o ran eu hamser sbâr ac mae'n rhoi pwysau arnynt yn feddyliol (e.e. y gallu meddyliol sydd ei angen i drefnu a rheoli'r aelwyd).

---

32 Mewn gwahanol leoedd, mae menywod yn profi effaith a baich yr argyfwng hinsawdd yn wahanol. Mewn rhai mannau, yn Ne'r Byd yn bennaf, mae cynefinoedd, bywoliaeth a diwylliannau yn diflannu. Mae nifer o bobl yn dechrau ffoi oherwydd yr hinsawdd, tra bod rhai mannau yn parhau i fyw bywydau arferol heb roi sylw i argyfwng yr hinsawdd. Am fod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Gymru, mae'r drafodaeth ar effaith argyfwng yr hinsawdd yn edrych yn benodol ar y cyd-destun yng Nghymru.
33 UNDP (2016), **Gender and Climate Change: Overview of linkages between gender and climate change.** (Mynediad: Ionawr 2022)
34 Djoudi, H. et al. (2016), **Beyond dichotomies: gender and intersecting inequalities in climate change studies.** Ambio 45, p.248–262; and Andrijevic, M. et al. (2020) 'Overcoming gender inequality for climate resilient development'. Nature Communications 11, 6261 (Mynediad: Ionawr 2022)
35 UN Women (2021) **Beyond COVID-19: A feminist plan for sustainability and social justice.** ((Mynediad: Hydref 2021)
36 UNDP (2016), **op** cit.
37 Cohen M. and MacGregor S. (2020) **Towards a Feminist Green New Deal for the UK: A paper for the WBG commission on a Gender-equal economy;** Women's Budget Group (WBG) and Women's Environmental Network (Wen.) (Mynediad: Awst 2021).
38 Fel cynhyrchion mislif gwyrdd, cosmetigau di-blastig, nwyddau gwyrdd i'r gegin, cynhyrchion glanhau nad ydynt yn wenwynig neu gewynnau sy'n pydru'n naturiol...
39 The Guardian, 06.02.2020. **The eco gender gap: why is saving the planet seen as women's work?** .
40 Farbotko, C. (2019) dyfynnwyd gan Cohen M. a MacGregor S. (2020) op cit.

# 4.3 Gweithredu Diwydiannol tuag at economi werth a chydraddoldeb rhywedd

Mae'r strategaethau diwydiannol presennol i newid i economi werdd yn tueddu i ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio sectorau carbon uchel fel ynni, gweithgynhyrchu a thrafnidiaeth, sydd ymhlith y sectorau sy'n achosi'r mwyaf o lygredd. Nid yw'r dull hwn yn rhoi fawr ddim sylw i'r rhannau hynny o'r economi sydd eisoes yn gymharol wyrdd, megis iechyd a gofal cymdeithasol neu addysg; sectorau sydd hefyd yn rhan bwysig o'r economi sylfaenol.

Mae'r meddylfryd economaidd presennol defnyddio'r term 'datgarboneiddio'r economi' i gyfeirio at y gwaith o ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus a phreifat ar raddfa fawr er mwyn datgarboneiddio'r sectorau ynni, trafnidiaeth, gweithgynhyrchu a'r sector tai/adeiladu.[41] Mae TUC Cymru yn awgrymu, gyda buddsoddiad cyhoeddus o £6 biliwn ar gyfer prosiectau yn y sectorau digidol, gweithgynhyrchu, trafnidiaeth, tai/adeiladu, ynni a sectorau defnydd tir ac adnoddau naturiol, y gellir creu 59,000 o swyddi tymor-byr yng Nghymru.[42] Dyma grynodeb o'r swyddi y mae pecyn TUC Cymru yn cyfeirio atynt:

- 27 mil o swyddi ym maes adeiladu tai ac ôl-osod effeithlonrwydd ynni
- 18 mil o swyddi mewn uwchraddio trafnidiaeth
- 9 mil o swyddi mewn uwchraddio seilwaith ynni, gweithgynhyrchu a band eang
- 5 mil o swyddi mewn gwelliannau tir, coedwigaeth ac amaethyddiaeth.

Mae'r bwlch sgiliau yn y sectorau hyn yn golygu bod angen mynd ati ar frys i uwchsgilio'r gweithlu presennol ac ehangu'r gweithlu yn y sectorau hyn.[43] Fodd bynnag, caiff y sectorau hyn eu dominyddu'n bennaf gan ddynion sy'n achosi bwlch rhywedd sylweddol.

Bydd y mater hwn o ran gwahanu yn ôl rhywedd sy'n amlwg yn y sectorau sydd wrth wraidd y gwaith o ddatgarboneiddio yn golygu y bydd dynion yn debygol o elwa o'r buddsoddiad mewn hyfforddiant a'r cyfleoedd swyddi a fydd yn codi wrth i ni newid i economi werdd. Yn y tymor byr i'r tymor canolig, mae'n rhaid i ni weld camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â stereoteipiau rhywedd ac i ymgysylltu â menywod a grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli i greu llwybrau cyflogaeth iddynt a chau'r bwlch rhywedd o ran eu sgiliau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar greu cynlluniau tymor hwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol yn ein cymdeithas a'n heconomi. Mae'n rhaid i bob cynllun ar gyfer adferiad gwyrdd ac ar gyfer symud i economi werdd gwneud cyfraniad at y gwaith o chwalu'r rhwystrau a'r anghydraddoldebau hirsefydledig hyn. Nid yw'n ddigonol bod strategaethau gwyrdd yn lleddfu effeithiau negyddol anghydraddoldeb rhywedd yn unig, mae'n rhaid iddynt hefyd osod cydraddoldeb fel nod a'i roi wrth wraidd eu gwaith.

41 Cohen M. and MacGregor S. (2020) and MacBride-Stewart S. and Parken A. (2021) op cit.
42 Wales TUC (2020). **Job creation in Wales from a Covid recovery infrastructure stimulus.** (Mynediad: Medi 2021)
43 Chapman A. and Kiberd E. (2021) op cit.

# 4.4 Manteisio ar Agroecoleg

Y sector amaethyddiaeth a bwyd yw un o'r sectorau sy'n cyfrannu fwyaf at lygredd a charbon uchel. Mae'r diwydiant bwyd yn gyfrifol am bron i 26% o allyriadau carbon byd-eang.[44] Mae gan y sector amaethyddiaeth bwysigrwydd hanesyddol yn economi a bywyd cymdeithasol Cymru, er bod ei gyfraniad at GYC Cymru yn gymharol fach (1%). Yn y sector hwn sy'n bwysig yn gymdeithasol ac yn hanesyddol, anwybyddir llafur menywod a'u perthynas â'r amgylchedd. Yn ôl ystadegau swyddogol, mae menywod yn cyfrif am 28% o'r gweithlu amaethyddol. Mae menywod bob amser wedi bod yn gweithio ar ffermydd, ond o ystyried y ganran isel o fenywod sy'n dirfeddianwyr ac sy'n berchen ar fusnes, nid yw eu llafur i'w weld yn y diwydiant amaethyddol.[45]

Mae diddordeb cynyddol mewn ffermio ymhlith menywod yng Nghymru. Yn 2021, cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth mai menywod oedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n astudio amaethyddiaeth am y tro cyntaf yn hanes y sefydliad.[46]

Yn unol â hynny, mae menywod yn cyfrif am 52% o brentisiaid yn y sector amaethyddol.[47] Gyda'r diddordeb cynyddol hwn mewn amaethyddiaeth ymhlith menywod, gallai fod cyfle i ymgysylltu â mwy o fenywod yn y sector, yn enwedig mewn perthynas â'r gwaith o newid y sector i fod yn sero net.

Mae agroecoleg yn cynnig dull amgen o ffermio diwydiannol confensiynol sy'n rhoi opsiwn gwyrddach, carbon isel. Mae Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (FAO) yn diffinio agroecoleg fel:

> *dull cyfannol ac integredig sy'n cymhwyso cysyniadau ac egwyddorion ecolegol a chymdeithasol er mwyn cynllunio a rheoli amaethyddiaeth a systemau bwyd cynaliadwy. Mae'n ceisio optimeiddio'r rhyngweithio sy'n digwydd rhwng planhigion, anifeiliaid, pobl a'r amgylchedd gan gyfuno hyn gyda'r gwaith o fynd i'r afael â'r angen am systemau bwyd teg sy'n rhoi'r dewis i bobl o ran beth maent yn ei fwyta, sut ac ymhle y caiff y bwyd ei gynhyrchu.*

Gallai buddsoddi mewn agroecoleg, gan ganolbwyntio ar fenywod a chydraddoldeb, a chymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd yn y sector amaethyddiaeth, fod yn gam pwysig tuag at economi werdd a chyfiawn yng Nghymru.

44 Cohen M. and MacGregor S. (2020) op cit.
45 Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2020-Mehefin 2021, Ystadegau Sector (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 2007)
46 Aberyswth University (2021), **Mwyafrif myfyrwyr amaeth yn fenywod ym Mhrifysgol Aberystwyth am y tro cyntaf.** (Mynediad: Hydref 2021).
47 StatsWales, **Rhaglenni dysgu seiliedig ar waith fesul sector a'r math o rhaglen.**
48 UN FAO(Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig); **Agroecology Knowledge Hub** (Mynediad: Hydref 2021).

# 4.5 Gofal fel sector gwyrdd

Mae ecolegwyr ac ymgyrchwyr ffeministaidd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith gofal cyflogedig a gwaith gofal di-dâl wrth wraidd cyfnod pontio gwyrdd, a bod y sector gofal eisoes yn sector carbon isel. Nid yn unig y mae'r sector gofal yn creu swyddi i lawer, ond mae hefyd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ein lles ni fel pobl. Er gwaethaf y ffaith hon, mae llawer o gynlluniau'r economi werdd yn anwybyddu gofal yn llwyr.

Nid yw buddsoddi mewn gofal yn golygu buddsoddi mewn gwasanaethau gofal proffesiynol yn unig. Mae ffeministiaid o bob cefndir wedi bod wrthi ers sbel yn ymgyrchu dros gael cydnabyddiaeth i werth gwaith gofal a gwaith domestig di-dâl, ac i gael cydnabyddiaeth i'w rôl ganolog wrth atgynhyrchu systemau a strwythurau economaidd a chymdeithasol.[49]

Dangosodd argyfwng Covid-19 bod gofal yn rhan sylweddol o fywyd cymdeithasol ac economaidd, ond mae system ofal y DU o dan bwysau anferthol. Mae cydnabod gofal fel sector gwyrdd a buddsoddi yn y system ofal nid yn unig yn gyfle i wella o effeithiau economaidd Covid-19, ond hefyd yn gam mawr tuag at greu economi wyrddach sy'n canolbwyntio ar les.

Dengys amcangyfrif a gyhoeddwyd yn 2020 gan Grŵp Cyllideb Menywod y DU y byddai unrhyw fuddsoddiad mewn gofal yn y DU yn creu *"2.7 gwaith yn fwy o swyddi â buddsoddiad cyfatebol mewn adeiladu: 6.3 gwaith yn fwy o swyddi i fenywod a 10% yn fwy i ddynion"*.[50]

Mae'n rhaid i fuddsoddiad o'r fath sicrhau bod swyddi gwell yn cael eu creu, lle mae'r amodau gwaith a'r tâl am weithwyr gofal lawer gwell, a lle rhoddir cymorth pellach i'r sector gyfrannu at ddyheadau sero net.

Mae'n rhaid i gynlluniau ar gyfer proses deg o newid, ar gyfer sero net ac ar gyfer economi werdd roi ystyriaeth ofalus i'r hyn a olygwn gyda'r diffiniad "swyddi gwyrdd". Mae'n rhaid i strategaethau edrych y tu hwnt i ddatgarboneiddio diwydiannau sy'n achosi llygredd uchel, ac ystyried sut y mae sectorau hanfodol eraill fel y sector gofal, yn rhan o'r economi rydym yn ceisio'i hadeiladu. O safbwynt cydraddoldeb rhywedd, byddai methiant i ystyried gofal fel rhan o'r trawsnewidiad economaidd hwn yn debygol o gryfhau anghydraddoldeb ymhellach ac eithrio menywod o'r economi.



49 Yn y llenyddiaeth ysgolheigaidd, mae gwaith gofal yn ei gysylltu â'r syniad o 'atgynhyrchu cymdeithasol' (SR). Yn syml, atgynhyrchu cymdeithasol yw'r gwaith atgynhyrchiol dyddiol a chenedliadol sy'n atgynhyrchu strwythurau a systemau cymdeithasol sy'n cynnal bywyd dynol, gan gynnwys yr economi hefyd. Mae'r ysgolhaig ffeministaidd Susan Ferguson yn pwysleisio bod y ddamcaniaeth atgynhyrchu cymdeithasol honno yn "honni nad yw ein dealltwriaeth o gyfalafiaeth yn gyflawn os ydyn yn trin y system fel un economaidd yn unig sy'n cynnwys gweithwyr a pherchnogion, ac yn methu ag archwilio'r ffyrdd y mae atgynhyrchu'r system – sef y gwaith atgynhyrchiol dyddiol a chenedliadol sy'n digwydd mewn cartrefi, yn yr ysgol, mewn ysbytai, carchardai ac ati – yn cynnal yr angen am groniad cyfalaf." (Wedi'i ddyfynnu yn y llyfr Mapping Social Reproduction Theory gan Bhattacharya T. mewn Social Reproduction Theory: Remapping Class, Recentering Oppression (ed. Bhattacharya, T.), Pluto Press.)
50 De Henau, J. and Himmerweit, S. (2020) **A Care-Led Recovery from Coronavirus: The case for investment in care as a better post-pandemic economic stimulus than investment in construction,** Grŵp Cyllideb Menywod.. (Mynediad: Medi 2021)

# 4.6 Tuag at economi werdd: Casgliad

Ledled y byd, mae llywodraethau, arweinwyr busnes ac unigolion yn cymryd camau priodol i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Heb newid sylweddol, bydd bywyd fel y mae heddiw yn dod i mewn. Mae'r mater o greu economi werdd yn ganolog i'n hymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae hwn yn fater sy'n gofyn am ymroddiad llwyr wrth fynd i'r afael â'n dull economaidd problematig; mae'n gofyn am drawsnewidiad llwyr o'r meddylfryd confensiynol sy'n ymwneud â'r economi sydd wedi'i dreiddio'n ddwfn mewn twf gan anwybyddu lles a chydraddoldeb.

Mae angen trawsnewidiad economaidd arnom sy'n dechrau drwy ofyn cwestiynau syml am bwrpas yr economi.[51] Os mai prif nod yr economi yw i fodlon anghenion lles cenedlaethau'r dyfodol a'r blaned, neu i gefnogi *'ffyniant bywyd'*[52] - fel y mae economegwyr ffeministaidd wedi'i bwysleisio ers tro, yn hytrach na pharhau i greu cyfoeth i gyfran leiafrifol yr unigolion a'r gwledydd, mae angen i bolisïau economaidd gyd-fynd â nodau cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys cydraddoldeb rhywedd, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol. Byddai'r dull economaidd newydd hon *"yn rhoi'r gorau i gymryd gwaith gofal di-dâl a'r amgylchedd yn ganiataol."*[53]

Mae'n rhaid i'r trawsnewidiad hwn o'n heconomi gynnwys darpariaeth deg i bawb, ac mae'n rhaid i'r trawsnewidiad fynd i'r afael ag anghydraddoldebau dwfn sy'n golygu bod effaith newid hinsawdd yn waeth i fenywod a'u bod yn llai tebygol o elwa o fuddsoddiad y llywodraeth, swyddi sy'n datblygu a'r hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu o ganlyniad i weithredu sero net.

Mae ffactorau fel diffyg menywod mewn rolau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau, prosesau democrataidd gwael yn ymwneud â gweithredu ar yr hinsawdd, tangynrychiolaeth menywod mewn sectorau sy'n ganolbwynt i gynlluniau datgarboneiddio a baich gwaith di-dâl yn golygu bod menywod yn cwympo'n ddyfnach i effeithiau anghydraddoldeb rhywedd.

Yn rhy aml, mae strategaethau'r Llywodraeth ar gyfer yr hinsawdd yn anwybyddu'r ffaith bod anghydraddoldeb yn broblem ac mae'n canolbwyntio'n ormodol ar ddatgarboneiddio diwydiannau brwnt ac felly'n methu ystyried sut y mae sectorau hanfodol eraill, fel y sector gofal yn rhan o economi werdd.

Darllenwch ein **hargymhellion** i sicrhau proses deg o newid i economi werdd.

51 UN Women (2021) op cit. .
52 Ibid. P. 11-12.
53 Ibid. P. 12.

# 5. Dadansoddiad o Bolisïau Llywodraeth Cymru ar sail Cydraddoldeb Rhywedd Croestoriadol

Mae'r materion yn ymwneud â digidoleiddio a'r newid i economi werdd yn gofyn am ymateb cynhwysfawr gan y llywodraeth. Os na chaiff ei wirio, bydd y trawsnewidiad hwn o'n heconomi yn cryfhau'r anghydraddoldebau presennol gan adael menywod dan anfantais, wedi'u hallgáu ac mewn perygl o brofi caledi ariannol a thlodi. Ond, gyda'r ymateb cywir, lle ystyrir cydraddoldeb fel ffactor ganolog gan wneud popeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a herio strwythurau pŵer annheg, gall llywodraethau greu'r economi werdd, ofalgar a theg y gwyddom sy'n hollbwysig i les cenedlaethau'r dyfodol.

Gan ystyried hyn a'r llenyddiaeth sy'n awgrymu nad yw llywodraethau ledled y byd yn gweithio'n ddigon caled i roi cydraddoldeb wrth wraidd eu polisïau a'u strategaethau sy'n ymwneud â digidoleiddio a newid hinsawdd, rydym wedi archwilio i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cydraddoldeb yn ganolog i'w strategaethau allweddol.



# 5.1 Pileri ac egwyddorion llunio polisïau yng Nghymru

Mewn sawl ffordd, mae gan Gymru sylfaen gref i allu gwneud pethau'n wahanol. Mae ganddynt fframwaith deddfwriaethol a pholisi sylweddol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried cydraddoldeb a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Drwy'r *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru*, eu hymrwymiad i fod yn llywodraeth ffeministaidd a'r modd maent wedi derbyn argymhellion yr *Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd,* mae Gweinidogion Cymru wedi datgan eu hymrwymiad yn glir i wneud penderfyniadau gwahanol a rhoi cydraddoldeb yn ganolog i'r gwaith o wneud penderfyniadau a llunio rhaglenni.

Ers etholiadau'r Senedd yn 2021, mae strwythurau'r Llywodraeth wedi cryfhau'r seilwaith ymhellach er mwyn blaenoriaethu cyfiawnder cymdeithasol ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae cael *Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol* a *Gweinidog dros Newid Hinsawdd,* yn eu bod yn cydnabod bod y materion hyn ymhlith y rhai pwysicaf heddiw.

Caiff hyn ei ategu ymhellach gan ymrwymiadau i economi llesiant, gan gynnwys y ffaith eu bod wedi dod yn aelod o *Wellbeing Economy Governments Partnership,* ac wedi buddsoddi yn yr economi sylfaenol. Ac i gefnogi'r gwaith o gyrraedd uchelgeisiau cydraddoldeb, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau cydraddoldeb naill ai ar waith neu'n cael eu datblygu, gan gynnwys y *Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24,* sy'n ofynnol o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, sy'n nodi nifer o nodau ac amcanion hirdymor cysylltiedig, a'r cynlluniau *Cynllun Gweithredu Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, a'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd.* Mae ymgynghoriad wedi'i wneud ar *Gynllun Gweithredu LHDTC+* a disgwylir ei gyhoeddi maes o law.



# 5.2 Ymateb Polisi Cyhoeddus i newid economaidd

Mae'r holl bwyntiau uchod yn gosod sail gadarn er mwyn rhoi cydraddoldeb yn ganolog i'n hymateb i ddigidoleiddio a'r broses o newid i economi werdd. Yn yr adroddiad llawn, rydym wedi dadansoddi nifer o strategaethau a chynlluniau gweithredu beirniadol sy'n berthnasol i'r tueddiadau hyn, gan gynnwys Cymru 4.0: *Cyflawni Trawsnewidiad Economaidd ar Gyfer Gwell Dyfodol Gwaith i Gymru* (gan gynnwys Asesiad Effaith Integredig), *Rhagolwg cynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 25), Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau.*

Er y rhoddir rywfaint o ystyriaeth i gydraddoldeb mewn sawl un o'r strategaethau a'r cynlluniau hyn, yn gyffredinol, gwelwn ddiffyg dadansoddiad ystyrlon o gydraddoldeb ac yn aml, rhoddir rywfaint o sylw i gydraddoldeb ond ni roddir y mater yn ganolog i'r strategaethau a'r cynlluniau. Mae diffyg tystiolaeth o gydraddoldeb ac o ganlyniad, mae nifer o'r strategaethau a'r cynlluniau hyn yn ddall i faterion yn ymwneud â rhywedd. Nid yw'r polisïau'n cydnabod yr anghydraddoldebau presennol a'u heffaith ar wahanol grwpiau, ac o ganlyniad, caiff cyfleoedd eu colli i roi targedau ar waith i leihau anghydraddoldeb ac i gymryd camau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr anghydraddoldeb hwn.

Mae Cymru yn arwain y byd o ran y polisïau a'r ymrwymiadau i ddod yn wlad gyfiawn a theg. Mae'r polisïau a'r ymrwymiadau hyn yn galluogi Cymru i ddatblygu dulliau polisi newydd, mabwysiadu dulliau economaidd anghonfensiynol a rhoi lles y bobl a'r blaned yn ganolog i'r gwaith o lunio polisi. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld yr egwyddorion hyn sydd ynghlwm â llunio polisi'n cael eu rhoi ar waith yn llawn mewn perthynas â chydraddoldeb.

Croesewir y cynllun peilot presennol o'r model datblygu i roi cydraddoldeb yn ganolog (a amlinellir yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd, *Gwneud nid Dweud*) i lywio'r Cynllun Cyllideb Sero Net gan Lywodraeth Cymru a all helpu i wella'r defnydd o ddadansoddi cydraddoldeb wrth lunio polisïau. Dylai'r hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot hwn lywio cynlluniau pellach i newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn llunio polisi. Mae'n rhaid i'r gwaith hwn gyd-fynd â chyflymu'r gwaith o roi'r holl argymhellion yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd, *Gwneud nid Dweud*, ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir cydraddoldeb yn ganolog ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru.

# 6. Casgliad ac Argymhellion

Mae ein heconomi yn cael ei thrawsnewid yn sylweddol. Oherwydd newidiadau mawr, fel digidoleiddio a'r angen i newid i economi werdd, mae'n rhaid i ni gwestiynu pa fath o economi yr ydyn am ei chael yn y dyfodol. Mae Chwarae Teg yn credu bod angen economi werdd, ofalgar a theg arnom. Dim ond os byddwn yn blaenoriaethu cydraddoldeb yn ein hymateb i'r newidiadau economaidd mawr y gallwn wireddu hyn.

Mae'r broses o ddigidoleiddio a'r newid i economi werdd yn effeithio'n wahanol ar fenywod a grwpiau ymylol eraill.  Nhw sydd fwyaf tebygol o ddioddef effeithiau gwaethaf y tueddiadau hyn, ac maent hefyd yn llai tebygol o elwa o'r cyfleoedd a godir wrth i ni symud ymlaen. Mae'r effaith wahaniaethol hon yn sail i'r anghydraddoldeb sy'n diffinio ein heconomi a'n cymdeithas. Felly, ni ellir ystyried anghydraddoldeb mewn perthynas â digidoleiddio a'r broses o newid i economi werdd fel rhywbeth ar wahân i faterion ehangach sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd.

Mae'n hanfodol y rhoddir cydraddoldeb wrth wraidd y ffordd rydym yn ymateb i'r ddau fater economaidd pwysig hyn. Fodd bynnag, er bod polisïau ac ymrwymiadau Cymru yn arwain y byd o ran creu gwlad gyfiawn a theg sy'n ein galluogi i ddatblygu dulliau polisi newydd, mabwysiadu dulliau amgen sy'n wahanol i'r meddylfryd confensiynol o ran yr economi, a rhoi lles y bobl a'r blaned wrth wraidd y gwaith o lunio polisi, nid ydym wedi gweld hyn yn cael ei roi ar waith.  Mae gormod o'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu sy'n llywio ein hymateb i ddigidoleiddio a'n newid i economi werdd yn ddall i rywedd, ac yn dangos diffyg dadansoddi cydraddoldeb sydd felly'n methu â chydnabod anghydraddoldebau presennol ac effaith y polisi ar grwpiau gwahanol. O ganlyniad, mae cyfleoedd wedi'u colli i roi targedau a chamau gweithredu wedi'u targedu ar waith i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr anghydraddoldeb hwn.

# Argymhellion

**1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r argymhellion a amlinellir yn ein **Maniffesto ar gyfer Cydraddoldeb Rhywedd yng Nghymru** ar waith i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol o anghydraddoldeb rhywedd law yn llaw â'r argymhellion penodol a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

**2.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r broses o roi'r argymhellion a amlinellir yn yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywedd, **Gwneud nid Dweud** sy'n mapio'r ffordd i brif ffrydio cydraddoldeb mewn modd clir.

## Er mwyn gwneud yn siŵr bod digoleiddio'n sicrhau canlyniadau teg:

**3.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal dadansoddiad/gwerthusiad o effeithiau awtomeiddio ar gydraddoldeb yn eu gweithle bob dwy flynedd. Dylid cyhoeddi'r dadansoddiad hwn.

**4.** Dylai Llywodraeth Cymru dreialu rhaglen ar gyfer newid gyrfa sy'n cael ei ddigidoleiddio, gan ganolbwyntio ar fenywod a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli mewn swyddi digidol.

**5.** Dylai Llywodraeth Cymru greu llwybr clir yn y sector digidol o lefel prentisiaeth hyd at lefel gradd. Dylai'r llwybr hwn gyd-fynd â chamau gweithredu wedi'u targedu i gynnwys mwy o fenywod a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli yn y sector digidol.

**6.** Dylai Llywodraeth y DU fonitro ac adrodd ar faterion sy'n ymwneud â rhagfarn mewn deallusrwydd artiffisial a thechnoleg ddigidol:
a) Dylid creu system glir i roi gwybod am ragfarn.
b) Dylid cyhoeddi rhagfarn yn gyhoeddus er mwyn helpu i ddeall graddfa rhagfarn ddigidol a chyflwyno gwelliannau i ymchwil, datblygu a gwerthuso arloesedd digidol.

**7.** Dylai Llywodraeth Cymru, o bosibl drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, sicrhau bod y cynlluniau sgiliau digidol sydd ar gael yng Nghymru yn darparu lefel sylfaenol o sgiliau digidol, yn targedu cyfran y boblogaeth a ddylai gyrraedd y lefel sylfaenol hon a dyddiad cau ar gyfer cyrraedd y targed hwn.

**8.** Dylai Llywodraeth y DU gydnabod band eang fel adnodd hanfodol, ar yr un lefel â thrydan, nwy a dŵr, gan roi rheoliad perthnasol ar waith i sicrhau bod pob aelwyd yn gallu fforddio cael band eang.

**9.** Dylai Llywodraeth Leol sicrhau bod offer digidol ar gael drwy:
a) Sicrhau bod gan bob canolfan gymunedol ac ysgol offer digonol.
b) Roi cynlluniau ar waith i ailgylchu a rhoi ail fywyd i hen offer digidol i'r rhai ar incwm isel.

## Er mwyn sicrhau proses gyfiawn o newid i economi werdd:

**10.** Llywodraeth Cymru greu llwybr gyrfa glir i swyddi STEM, sy'n canolbwyntio ar gefnogi menywod a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Dylai'r llwybr hwn gynnwys gwell cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd, llwybrau cymwysterau cydnabyddedig, hyfforddiant a fframwaith prentisiaeth clir.

**11.** Dylai Llywodraeth Cymru weithi gyda SAU i greu cymhwyster mewn agroecoleg, i gefnogi prosesau amaethyddol gwyrddach a chynnwys mwy o fenywod yn yr economi wledig.

**12.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadau diffiniad ehangach o 'economi werdd' sy'n mynd y tu hwnt i ddatgarboneiddio er mwyn creu Cymru carbon isel yn wirioneddol, a sut y mae hyn yn gysylltiedig â'r economi sylfaenol a lles.

**13.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn y sector gofal a chefnogi'r gwaith o newid i ffyrdd mwy gwyrdd o weithio a darparu swyddi o ansawdd da.

**14.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar botensial ôl-ffitio tai i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol drwy:
a) Blaenoriaeth cartrefi yn y cymunedau mwyaf difreintiedig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd;
b) Gosod targed ar gyfer lenwi cyfran o'r holl swyddi a chyfleoedd hyfforddi a grëwyd drwy'r rhaglen ôl-ffitio gyda menywod a grwpiau eraill sydd wedi'u tangynrychioli yn y diwydiant adeiladu.

**15.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ymrwymo i flaenoriaethu democratiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau am newid hinsawdd a'r newid i economi werdd, gan gynnwys gwneud gwell defnydd o Gynulliad Dinasyddion ac adnoddau ymgysylltu cynhwysol eraill.

**16.** Dylai cyflogwyr ystyried effeithiau newidiadau i bolisïau ac arferion yn y gweithle ar gydraddoldeb er mwyn trosglwyddo i ffyrdd mwy gwyrdd o weithio.



Chwarae Teg

www.chwaraeteg.com

02920 462 745

policyandresearch@chwaraeteg.com